**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

23 Gorffennaf 2024

Annwyl Peredur,

**Osgoi Treth Gwarediadau Tirlenwi**

Diolch i chi am eich llythyr, yn trafod yr honiadau diweddar a wnaed yn rhaglen ddogfen Dispatches Channel 4, Rubbish Tip Britain, bod gwastraff yng Nghymru yn cael ei gamddisgrifio er mwyn efadu cyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT).

<u>Prosesau cydymffurfio presennol ACC</u>

*Dull ACC*

Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithio'n agos gyda threthdalwyr a'u cynghorwyr i'w helpu i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad ACC i 'Ein Dull': Cydweithio, Cadarnhau a Chywiro. Fodd bynnag, mae ganddo bolisi dim goddefgarwch tuag at osgoi ac efadu treth, sy'n cynnwys camddisgrifio gwastraff.

Mae gan ACC reolwyr cysylltiadau cwsmeriaid TGT penodol sy'n gweithio'n agos gyda gweithredwyr safleoedd tirlenwi i'w helpu i gael eu treth yn iawn o'r cychwyn cyntaf. O fewn y sefydliad, maent yn un pwynt cyswllt i weithredwyr safleoedd tirlenwi fynd atynt gydag unrhyw gwestiynau neu bryderon. Mae'r system hon yn helpu ACC i ddeall model busnes unigryw pob gweithredwr safle tirlenwi a nodi a lliniaru risg trwy weithio'n agos â nhw.

*Gweithgareddau ACC*

Mae ACC yn nodi achosion posibl o risg treth (h.y. lle gallai trethdalwyr fod wedi talu'r swm anghywir o dreth) trwy ei berthynas waith agos â gweithredwyr safleoedd tirlenwi, y data mae'n ei dderbyn trwy ffurflenni treth TGT, a gwybodaeth a rennir ag ACC gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac asiantaethau eraill. Mae gan ACC ystod o bwerau sifil a throseddol er mwyn mynd i'r afael â'r achosion hyn. Mae sut a phryd y defnyddir y rhain yn dibynnu ar amgylchiadau'r mater. Lle bo'n briodol, mae'n rhannu gwybodaeth gyda rhwydwaith o bartneriaid, megis CNC ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith, a all hefyd gymryd camau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gall ACC gymryd y camau canlynol lle mae'n credu bod treth yn cael ei cholli:

- agor ymholiad i ffurflen dreth,
- cyhoeddi ceisiadau am wybodaeth (gan gynnwys gan drydydd partïon),
- ymweld â safleoedd tirlenwi,
- codi cosbau lle mae ymddygiad trethdalwr wedi bod yn ddiofal neu'n fwriadol, a
- gwneud asesiad o'r dreth sy’n ddyledus (er mwyn gwneud yn iawn am golli treth ddatganoledig).

Nid gweithredwyr safleoedd tirlenwi yw'r unig rai sy’n talu TGT. Pan fo ACC o'r farn bod gwastraff wedi cael ei waredu heb awdurdod, gall godi treth ar y gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi (150% o gyfradd TGT safonol). Gall ACC godi treth ar unrhyw berson a wnaeth neu a achosodd neu a ganiataodd waredlad heb ei awdurdodi, yn fwriadol Pan fo sawl person yn ymwneud ag un gwarediad, byddant yn atebol ar y cyd ac yn unigol am y dreth a godir.

Hyd yn oed pan nad ydynt yn cytuno ar swm y dreth sy'n ddyledus, mae ACC yn gweithio mewn modd cynhyrchiol ac ar y cyd â threthdalwyr i ddatrys y mater, gan ddefnyddio eu pwerau lle bo hynny'n briodol. Pan fo ACC yn cyhoeddi penderfyniad ffurfiol ar atebolrwydd trethdalwr i dalu TGT, mae gan y trethdalwr yr hawl i ofyn i ACC ei adolygu a/neu gallant apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys.

*Partneriaeth gyda CNC*

Mae ACC wedi datblygu partneriaeth waith agos gyda CNC ers datganoli TGT yn 2018, sy’n cynnwys dirprwyo rhai swyddogaethau ymchwiliol ac ariannu tîm TGT pwrpasol o fewn CNC. Gyda'i gilydd, mae ACC a CNC wedi datblygu cyd-strategaeth TGT er mwyn cynyddu effaith eu pwerau a mapio'r camau gweithredu ar y cyd y byddant yn eu cymryd er mwyn mynd i'r afael ag achosion o droseddau gwastraff. Maent yn rhannu arbenigedd a gwybodaeth ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig ac achosion o waredu gwastraff heb awdurdod, fel mater o drefn. Maent hefyd yn cynnal ymweliadau ar y cyd â safleoedd tirlenwi awdurdodedig.

<u>Diweddariad ar y prosiect camddisgrifio</u>

Mae ACC a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal prosiect ar y cyd i nodi lle mae cam-ddisgrifio’n digwydd a sut i liniaru hyn. Hyd yn hyn, maent wedi nodi sawl pwynt yn y cylch gwastraff lle gellir camddisgrifio gwastraff ac wedi bod yn ymchwilio i achosion o gamddisgrifio.

Fel y dywedsoch, nododd yr Adolygiad Annibynnol o’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi fod y bwlch rhwng y cyfraddau is a safonol wedi cyfrannu at gamddosbarthu gwastraff yn fwriadol. Gallai mwy o gamau rheoleiddio ar adegau allweddol yn y cylch gwastraff helpu i leihau achosion o gamddisgrifio, ond ni fyddai'n mynd i'r afael â'r hyn sy’n ei achosi.

Gallai codi neu ddileu'r gyfradd is o TGT gael effaith sylweddol o ran lleihau'r risg o gamddisgrifio a chyfrannu at nodau economi gylchol Cymru. Mae fy swyddogion wedi gweithio gydag ACC a CNC er mwyn deall effaith a risgiau newid o'r fath. Yn ddiweddar, gwnes i gyhoeddiad ysgrifenedig ynglŷn â hyn, a lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau hyn.

Asesiadau o refeniw TGT a gollwyd oherwydd gweithgareddau osgoi/efadu treth ac unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r ymddygiadau hynny

Nid yw ACC yn modelu'r refeniw TGT a gollir, oherwydd y lefel uchel o gymhlethdod yn y diwydiant a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â modelu gan ddefnyddio'r nifer fechan o weithredwyr safleoedd tirlenwi sydd yng Nghymru (17). Gallai cyhoeddi data'n seiliedig ar y nifer fechan hon hefyd beryglu datgelu gwybodaeth trethdalwyr unigol.

Ar hyn o bryd, mae ACC yn gweithio, neu eisoes wedi cwblhau, ymholiadau i nifer o weithredwyr safleoedd tirlenwi sydd, gyda'i gilydd, yn talu 50-60% o gyfanswm y TGT a gesglir yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r achosion hyn yn cynnwys camddisgrifio gwastraff. Yn ogystal, hyd yma mae ACC wedi derbyn 50 o atgyfeiriadau o achosion gwaredu heb awdurdod posibl gan CNC. O'r rhain, mae ACC wedi, neu ar hyn o bryd yn ymchwilio i 15 ohonynt. Yn 2023, ACC oedd yr awdurdod refeniw cyntaf yn y DU i gasglu treth ar achosion o waredu gwastraff heb awdurdod.

Mae prosesau cydymffurfio ACC yn eu gwneud yn hyderus eu bod ganddynt ddull cadarn tuag o fynd i'r afael ag osgoi ac efadu treth. Maent yn gweithio gyda phartneriaid i gymryd y camau gweithredol a pholisi sy'n angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg dreth a helpu i gyflawni nod Cymru o fod yn genedl ddiwastraff erbyn 2050.

Byddwn i'n hapus i gyfarfod â chi i drafod y mater camddisgrifio ymhellach, os byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office